# EVANS, LEWIS (c. 1700 - 1756), gwneuthurwr mapiau

**Enw:** Lewis Evans
**Dyddiad geni:** c. 1700
**Dyddiad marw:** 1756
**Priod:** Martha Evans (née Hoskins)
**Plentyn:** Amelia Evans
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gwneuthurwr mapiau
**Maes gweithgaredd:** Celf a Phensaernïaeth; Peirianneg, Adeiladu, Pensaerniaeth Forwrol ac Arolygu Tir; Teithio
**Awdur:** Mary Gwyneth Lewis

Ganwyd fel y tybir, ym mhlwyf Llangwnadl, Sir Gaernarfon. Daeth yn fesurydd ym Mhennsylvania. Yn 1749 cyhoeddodd *A Map of Pensilvania, New Jersey, New York and the three Delaware Counties*, yn cynnwys nodiadau ar fellt a thrydan. Ei fap mwyaf nodedig ydyw *A General Map of the Middle British Colonies in America* a gyhoeddwyd yn 1755; ystyrid hwn yr awdurdod pennaf ar benderfynnu ymrafael yngl n â ffiniau, a gwnaed defnydd helaeth ohono yn ystod y Rhyfel Saith Mlynedd. Yn yr *Analysis* a gyhoeddwyd gyda'r map mynegwyd syniadau gan Evans am hawliau tirol Ffrainc a arweiniodd i feirniadaeth lem arno mewn ysgrif ddi-enw yn y *New York Mercury*, 5 Ionawr 1756; ymhen pum niwrnod atebodd Evans trwy gyhoeddi ail draethawd. Yr oedd yn ei fryd gyhoeddi mapiau o'r holl daleithiau unigol, ond bu farw, 12 Mehefin 1756, cyn cwpláu'r gwaith; yr oedd ar y pryd yng ngharchar yn Efrog Newydd oherwydd cyhuddiad am enllib yn erbyn y llywodraethwr Robert Hunter Morris. Defnyddiwyd llawer o'i fap heb gydnabyddiaeth rhwng 1755 ac 1814 gan gyhoeddwyr mapiau yn Llundain; yn 1776 fe'i cyhoeddwyd gan Thomas Pownall gyda'i *Topographical Description of North America* a throsglwyddwyd yr elw i deulu Evans a oedd mewn amgylchiadau cyfyng.

Priododd Martha Hoskins (bu farw c. 1746), yn Eglwys Crist, Philadelphia ym 1743, a ganwyd iddynt ferch, Amelia, (a phlant eraill o bosib).

## Awdur

**Mary Gwyneth Lewis**, (1912 - 1999)

## Ffynonellau

Henry N. Stevens, *Lewis Evans, His Map of the Middle British Colonies in America; a comparitive account of eighteen different editions published betwwen 1755 and 1814* (ail arg.), 1920

*Dictionary of American Biography*, 1931

C. A. W. Pownall, *Thomas Pownall, governor of Massachusetts Bay, author of The letters of Junius with a supplement comparing the colonies of Kings George III and Edward VII* (1908)

P. L. Phillips, *A List of Geographical Atlases in the Library of Congress* (Washington 1909-20)

*Cat. of the Printed Maps, Plans and Charts in the British Museum* (1885)

Lawrence Henry Gipson, *Lewis Evans to which is added Evans' A brief account of Pennsylvania* (Philadelphia 1939)

*Gwreiddiau Gwynedd Roots*, Ebrill 1987

*Y Casglwr pob peth printiedig*, rhif 34, Mawrth 1988

## Darllen Pellach

BBC cymrufyw: Cymro wnaeth roi America ar y map (cyrchwyd Awst 2019)

Erthygl Wicipedia: Lewis Evans (tirfesurydd)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 77095575

Wikidata: Q6536537

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu